# Meddyginiaethau a ddefnyddir i Reoli Diabetes

| | BIGUANIDES – METFORMIN GLUCOPHAGE SUKKARTO | Atalyddion SGLT2- DAPGLIFLOZIN CANAGLIFLOZIN EMPAGLIFLOZIN ERTUGLIFLOZIN | Atalyddion DPP4 – LINAGLIPTIN SITAGLIPTIN SAXAGLIPTIN ALOGLIPTIN VILDAGLIPTIN | SULPHONYLUREAS- GLICLAZIDE GLIMEPERIDE | THIAZOLIDINEDIONES- PIOGLITAZONE | YSGOGWR DERBYNNYDD GLP-1 DULAGLUTIDE SEMAGLUTIDE LIRAGLUTIDE RYBELSUS TIRZEPATIDE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SUT MAE'N GWEITHIO?** | Yn lleihau'r glwcos sy'n cael ei gynhyrchu yn yr afu. Yn lleihau ymwrthedd i inswlin. | Yn atal yr arennau rhag ail-amsugno'r glwcos. | Yn cynyddu lefelau'r hormon incretin drwy atal yr ensym DPP4 sy'n achosi iddo fod yn anweithredol. | Yn ysgogi'r pancreas i ryddhau inswlin. | Yn lleihau ymwrthedd i inswlin. | Yn ysgogi'r pancreas i ryddhau inswlin. Yn oedi gwagio'r stumog, a gall leihau chwant bwyd. |
| **RHOI'R FEDDYGINIAETH** | Gellir ei rhoi unwaith neu ddwywaith bob diwrnod – RHAID ei rhoi gyda bwyd – fel arfer gyda brecwast a phryd gyda'r nos. | Unwaith bob diwrnod, yn y bore. | Unwaith bob diwrnod, yn y bore. | Unwaith neu ddwywaith bob diwrnod – RHAID ei rhoi gyda bwyd. Angen monitro glwcos. | Unwaith bob diwrnod, yn y bore. | Pigiad – Dulaglutide (Trulicity), Semaglutide (Ozempic), Tirzepatide (Mounjaro) – unwaith bob wythnos. Liraglutide (Victoza) – unwaith bob diwrnod. Semaglutide (Rybelsus) – un TABLED bob diwrnod. |
| **ADWEITHIAU NEWIDIOL** | Dolur rhydd yw'r sgil-effaith fwyaf cyffredin, fel arfer wrth ddechrau'r feddyginiaeth – peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth yn ystod cyfnodau o salwch. | Y llindag yn yr organau rhywiol, pasio dŵr yn aml. Mae colli pwysau i'w ddisgwyl. Peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth yn ystod cyfnodau o salwch. | Lefelau goddefgarwch da fel arfer. | RISG O BWL HYPO | Ataliad hylif, gall achosi diffyg anadl a bydd angen adolygiad meddygol. Rhowch y gorau i roi'r feddyginiaeth hon mewn unrhyw achos o waed yn y dŵr. | Cyfog a diffyg chwant bwyd yw'r prif sgil-effeithiau. Mae colli pwysau i'w ddisgwyl. |

Mae cyfuniad o therapïau o feddyginiaethau drwy'r geg ac yn aml caiff y rhain eu presgripsiynu i leihau baich sawl meddyginiaeth a all fod yn anodd i bobl eu cymryd. Gellir presgripsiynu rhai therapïau drwy'r geg ar ffurf hylif – os yw'r unigolyn sy'n dioddef o ddiabetes yn ei chael hi'n anodd cymryd ei feddyginiaethau, siaradwch â'r fferyllydd neu'r meddyg teulu.

Gellir rhoi cyfuniad o feddyginiaethau pigiadwy, e.e. Xultophy neu Suliqua (gellir presgripsiynu cyfuniadau o inswlin ac ysgogwyr derbynwyr GLP-1 ar gyfer rhai pobl sy'n dioddef o ddiabetes ac sydd angen GLP1 a therapi inswlin). Os ydych yn ansicr am unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu gweinyddu i rywun sy'n dioddef o ddiabetes yr ydych chi'n gofalu amdano, siaradwch â'r fferyllydd neu feddyg teulu.

**Ffilmiau PocketMedic**

Gwyliwch y ffilmiau canlynol gan PocketMedic yma:

**https://vimeo.com/412283898/4c67cba826**

**https://vimeo.com/412677936/cbfa519409**